# Deddf Tai (Cymru) 2014

**2014 dccc 7**

**RHAN 1**

RHEOLEIDDIO TAI RHENT PREIFAT

*Gorfodi*

## 35 Troseddau gan gyrff corfforaethol

(1) Pan brofir bod trosedd o dan y Rhan hon a gyflawnwyd gan gorff corfforaethol wedi ei chyflawni gyda chydsyniad neu ymoddefiad y canlynol, neu y gellir ei phriodoli i unrhyw esgeulustod ar ran y canlynol—

(a) cyfarwyddwr, rheolwr, neu ysgrifennydd y corff corfforaethol, neu

(b) person sy'n honni cyflawni'r gyfryw swyddogaeth,

mae'r person hwnnw yn ogystal â'r corff corfforaethol yn cyflawni'r drosedd ac yn agored i achos yn ei erbyn ac i gael ei gosbi yn unol â hynny.

(2) Mae'r cyfeiriad at gyfarwyddwr, rheolwr neu ysgrifennydd y corff corfforaethol yn cynnwys cyfeiriad—

(a) at unrhyw swyddog tebyg arall yn y corff;

(b) pan fo'r corff yn gorff corfforaethol y mae ei faterion yn cael eu rheoli gan ei aelodau, at unrhyw swyddog neu aelod o'r corff.

**Gwybodaeth Cychwyn**

**I1** A. 35 ddim mewn grym ar y Cydsyniad Brenhinol, gweler **a. 145(3)**

**I2** A. 35 mewn grym ar 23.11.2016 gan O.S. 2016/1066, **ergl. 2**

**I3** A. 35 mewn grym ar 23.11.2016 gan O.S. 2016/1009, **ergl. 2(2)(r)**

**Newidiadau i ddeddfwriaeth:**
Ar hyn o bryd nid oes unrhyw effeithiau heb eu gweithredu yn hysbys ar gyfer y Deddf Tai (Cymru) 2014, Adran 35.